Wylfa Newydd

# Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 16: Asesiad o Eiffeithiau Cronnus

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS: EN010007

This page is left intentionally blank

## 1.0 Asesiad o Effeithiau Cronnus

### 1.1 Cyd-destun a Dull

1.1.1 Wylfa Newydd yw'r prosiect datblygu mwyaf i gael ei gynnig erioed ar Ynys Môn, ac o ystyried rhaglen ddarparu bresennol Horizon hwn hefyd fyddai'r prosiect adeiladu mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf y disgwylir iddo ddigwydd ar draws y DU dros amserlen gymharol. Mae Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (WNDA), sy'n ymgorffori safle'r orsaf bŵer arfaethedig, yng Ngogledd yr Ynys ac yn cynnwys cymunedau o drefi bychain, pentrefi a phentrefannau mewn ardal wledig yn bennaf gydag ystod amrywiol o asedau amgylcheddol sy'n gaffaeliad mawr iddi. Mae poblogaeth Gogledd yr Ynys yn oedrannus o'i gymharu â gweddill yr ynys gyda mwy o siaradwyr Cymraeg yn tueddu i fod yng nghanol a rhan orllewinol yr ardal. Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn cydnabod mai'r cymunedau agosaf at ardal WNDA sydd fwyaf tebygol o brofi effeithiau andwyol sylweddol o Brosiect Wylfa Newydd (WNP) ac na fydd y Cyngor yn gallu gwneud llawer amdan yr effeithiau hyn. Yn unol â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFGA), mae'n ofynnol i'r Cyngor ddangos sut y mae'n cyrraedd ei amcanion llesiant mewn ffordd gynaliadwy a hyn wrth wraidd ei ddull o gyflawni'r Asesiad hwn er mwyn diogelu ansawdd bywyd y trigolion a hybu lles cenedlaethau'r dyfodol.

1.1.2 Mae'r Cyngor wedi paratoi Papur Egwyddorion Agosatrwydd i'w ystyried gan PINS yn ystod y broses Archwilio i ehangu ar ei safiad mai'r cymunedau sy'n debygol o brofi'r effeithiau andwyol mwyaf a ddylai gael y sylw mwyaf wrth liniaru a gwneud iawn am yr effeithiau hynny. Yn benodol, mae'r papur yn cydnabod bod ffocws gofodol yr effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a fydd yn deillio o WNP wedi'i ragweld i fod yn ardal Gogledd yr Ynys gyda phwyslais arbennig ar dderbynyddion yng nghyffiniau ardal WNDA.

1.1.3 O ganlyniad uniongyrchol i Wylfa Newydd, mae'r Grid Cenedlaethol wedi rhoi Prosiect Cysylltu Gogledd Cymru (NWCP) gerbron. Mae'r prosiect hwn, sydd hefyd yn destun cais cyfredol am DCO, yn cynnig codi a rhedeg gwifren drydan uwchben 440kV o safle'r orsaf bŵer newydd, ar draws y cymunedau cyfagos ac yna ar draws Ynys Môn i gyd. Mae effeithiau uniongyrchol y prosiect hwn, mewn cyfuniad â Wylfa Newydd, yn debygol o effeithio ar gymunedau Gogledd yr Ynys yn fwy na chymunedau eraill ar yr Ynys. Cymunedau Cemaes, Tregele a Llanfechell yw'r rhai sydd agosaf i'r orsaf bŵer arfaethedig ac a fydd yn derbyn yr effeithiau cronnus mwyaf o'r ddau brosiect.

1.1.4 Yn ogystal â'r Papur Egwyddorion Agosatrwydd y cyfeiriwn ato uchod ac i gydnabod yr effeithiau cronnus yn deillio o Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru, mae'r Cyngor wedi paratoi adran benodol ar Ogledd yr Ynys fel rhan o'i ddogfen Ganllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Wylfa Newydd (SPG 2018), gyda Phapur Pwnc Gogledd Ynys Môn i gyd-fynd â'r ddogfen. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni asesiad cymunedol penodol o'r WNP ar gyfer Gogledd yr Ynys yn erbyn nodau ac amcanion y WBFGA ac wedi paratoi asesiad ar wahân o brosiect Cysylltu Gogledd Cymru. Ym mhob dogfen,

mae'r potensial y bydd effeithiau cronnus ar les y gymuned wedi eu cydnabod a mesurau ychwanegol i ddiogelu lles wedi cael eu hadnabod.

1.1.5 Os bydd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn cael ei gymeradwyo, gallai'r WNP drawsnewid yr ardal o ran creu manteision i economi Ynys Môn a Rhanbarth Gogledd Cymru'n gyffredinol. Fodd bynnag mae Horizon a'r Cyngor yn cydnabod y bydd y WNP yn cael effeithiau andwyol sylweddol. Maen nhw'n debygol o gynnwys effeithiau'n deillio o sŵn a dirgryniad, ar ansawdd yr aer, y tirlun ac effeithiau gweledol yn ogystal ag ar y Gymraeg, tai a thwristiaeth, addysg a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol. Bydd rhai o'r effeithiau hyn yn cyfuno i ddod yn gronnus andwyol gan achosi effeithiau sylweddol ar dderbynyddion fel amwynder preswyl a natur glos y gymuned.

## 2.0 Methodoleg y CIA a Phrosiectau sy'n Rhesymol Ddisgwyliedig yn y Dyfodol

2.1.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn cysylltu â chwmni Horizon ynglŷn â chwmpas yr Asesiad o Effeithiau Cronnus (CIA) ar gyfer cais DCO y WNP. Mae'r ddeialog rhyngddynt wedi cynnwys:

a) Horizon i roi "rhestr hir" o Brosiectau sy'n Rhesymol Ddisgwyliedig yn y Dyfodol (RFFP) i'r Cyngor sydd wedi eu hadnabod gan y cwmni fel prosiectau y gellid eu cynnwys yn y CIA, ac yna "rhestr fer" o brosiectau a ddefnyddiwyd gan Horizon i gyfiawnhau cynnwys prosiectau fel rhai o fewn neu y tu allan i gwmpas y CIA, ar sail ystod o feini prawf gan gynnwys y potensial i orgyffwrdd yn amserol a / neu'n ofodol â'r WNP, maint ffisegol y prosiectau, dwysedd tebygol y gwaith datblygu a pha wybodaeth ddibynadwy sydd ar gael am y newidiadau disgwyliedig i'r amodau gwreiddiol a'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig.

b) Mae'r Cyngor wedi ymateb i gynigion RFFP Horizon ar wahanol adegau yn y cam cyn-gwneud-cais ond cafodd yr ymatebion allweddol eu cyflwyno yn Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018.

2.1.2 Dangosodd ymateb uchod y Cyngor Sir fod y Cyngor yn cytuno â chyfran helaeth o'r prosiectau RFFP y mae Horizon yn cynnig eu cynnwys fel rhai sydd o fewn cwmpas y CIA. Fodd bynnag mae'r Cyngor wedi adnabod rhai eithriadau nodedig:

- Prosiect AN12 – Parth Dangosol Gorllewin Ynys Môn (Menter Môn)

2.1.3 Yn Rhagfyr 2017 hysbysodd y Cyngor gwmni Horizon fod y prosiect ynni llanw dangosol hwn yn symud ymlaen yn weithredol drwy Ynni Llanw Morlais, gyda'r prosiect yn cael ei reoli gan Fenter Môn, a bod y cwmni wedi hysbysebu am nifer o swyddi allweddol i fwrw ymlaen gyda'r prosiect. Argymhellodd y Cyngor fod Horizon yn cysylltu â Menter Môn i sicrhau gwybodaeth berthnasol er mwyn ei chynnwys yn y CIA.

- Prosiect AN17 – Rhaglen codi tai (Cyngor Sir Ynys Môn)

2.1.4 Dywedodd y Cyngor wrth Horizon eu bod wedi sicrhau cyllid i ddechrau'n gynt ar y gwaith o godi 400 o dai rhwng 2018-2022. Gofynnodd y Cyngor i Horizon gynnwys y bwriad i godi'r nifer sylweddol hyn o dai newydd fel prosiect sydd o fewn cwmpas y CIA.

- Prosiect AN22 - Trydedd bont ar draws Afon Menai (Llywodraeth Cymru)

2.1.5 Gofynnodd y Cyngor (drwy e-bost at Sarah Price (ar ran cwmni Horizon) dyddiedig 31 Ionawr 2018)) y dylid cynnwys y prosiect seilwaith newydd a phwysig hwn o fewn cwmpas y CIA oherwydd, bryd hynny, roedd y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys gwybodaeth amgylcheddol lefel uchel i gefnogi ystyried pedwar opsiwn yr aethpwyd ymlaen i ymgynghori arnynt rhwng Rhagfyr 2017 a Mawrth 2018. Yr amserlen a gyhoeddwyd ar gyfer trydedd bont i groesi'r Fenai yw bod disgwyl i'r prosiect hwnnw orgyffwrdd yn amserol â'r WNP, gyda'r gwaith ar y bont i ddechrau yn 2020/21 a gorffen yn 2022/23.

2.1.6 Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn rhesymol y gallai Horizon fod wedi defnyddio barn broffesiynol arbenigol i asesu effeithiau amgylcheddol posib trydedd bont mewn cyd-destun CIA cyn cyflwyno'r DCO. O ystyried bod opsiwn a ffafrir bellach wedi'i adnabod a'i gefnogi gan wybodaeth amgylcheddol ychwanegol, dylai Horizon fod mewn sefyllfa i wneud asesiad ansoddol o leiaf o effeithiau cronnus posib y prosiectau hyn sy'n arbennig o berthnasol o ran oedi amseroedd teithio a thagfeydd o fewn ac o gwmpas yr Ynys gan ymestyn allan i lwybrau priffyrdd prysur sy'n rhoi mynediad i'r bont bresennol a'r un arfaethedig.

- Prosiect CN02 – Gwelliannau i Gyffyrdd 15 ac 16 o'r A55.

2.1.7 Mae'r Cyngor wedi hysbysu Horizon fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau strategaeth un opsiwn ar gyfer y cynllun hwn a bod contractwr wedi'i benodi i symud ymlaen a datblygu'r opsiwn hwn trwodd at gyfnod adeiladu'r prosiect. Disgwylir cynnal ymchwiliad cyhoeddus dros Haf / Hydref 2019 gyda'r gwaith adeiladu i ddigwydd rhwng Hydref 2020 a Hydref 2022. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i Horizon y gallai hyn effeithio'n sylweddol ar amseroedd teithio o fewn dalgylch 90 munud y WNP.

2.1.8 Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi rhoi cyngor ychwanegol ar gwmpas y prosiectau RFFP y dylid eu cynnwys o fewn cwmpas y CIA mewn e-bost at Horizon dyddiedig 31 Ionawr 2018, fel a ganlyn:

- Stena Ports Ltd a Chyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Gwella / Adfer Morglawdd Harbwr Allanol Caergybi – *mae Cyngor Sir Ynys Môn yn argymell bod Horizon yn gwneud ymholiadau gydag Awdurdod y Porthladd i gadarnhau pa wybodaeth amgylcheddol sydd ar gael.*

- Dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd - cyfeiriodd y Cyngor gwmni Horizon at Nodyn Cyngor 17 yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n nodi bod safleoedd wedi eu hadnabod yn y Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd yn cael eu cydnabod fel 'datblygiadau eraill' Haen 3. Mynegodd y Cyngor eu barn i Horizon y dylid cynnwys y dyraniadau yn y Cynllun yn y rhestr o Brosiectau sy'n Rhesymol Ddisgwyliedig yn y Dyfodol (RFFP) ac felly yn yr Asesiad o'r Effaith Gronnus.

2.1.9 Dywedodd Horizon (mewn e-bost gan Sarah Price wedi'i gyfeirio at Dylan Williams yn y Cyngor, dyddiedig 6 Chwefror 2018) nad oedd cais y Cyngor i gynnwys y prosiectau RFFP uchod yn bosib oherwydd bod angen cwblhau dogfennau'r DCO yn derfynol.

2.1.10 Mae'r Cyngor wedi rhannu ei dogfen ganllawiau ar ddull a methodoleg y CIA (IACC, 2014) â chwmni Horizon bron ers dechrau'r broses cyn-gwneud-cais. Mae'r ddogfen yn nodi mai torbwynt amser priodol ar gyfer ystyried cynnwys prosiectau RFFP yn y broses CIA fyddai pedwar mis cyn cyflwyno'r DCO. Cyflwynodd Horizon eu cais DCO ar gyfer y WNP ar 1 Mehefin 2018, a ddylai fod wedi rhoi digon o amser rhwng Rhagfyr 2017 / Ionawr 2018 a Mehefin 2018 i Horizon gyflawni asesiad ansoddol lefel uchel, o leiaf, o'r prosiectau a restrir uchod er mwyn gallu eu hystyried yn briodol o fewn cwmpas y CIA.

2.1.11 Y mwyaf nodedig o'r prosiectau RFFP y cawsant eu hadnabod gan Horizon yw Prosiect Cysylltu Gogledd Cymru (NWCP) gan y Grid Cenedlaethol ac a fydd yn digwydd yn amodol ar ei gymeradwyo drwy Orchymyn Caniatâd Datblygu. Derbyniodd yr Arolygiaeth Gynllunio'r cais cofrestru DCO ar gyfer y datblygiad hwn ar 7 Medi 2018. Prif bwrpas y NWCP fyddai trosglwyddo trydan i'r grid cenedlaethol o Orsaf Bŵer y WNP ac felly mae'r effeithiau cronnus ar yr amgylchedd a fyddai'n deillio o ddau brosiect cysylltiedig, a fyddai hefyd yn gorgyffwrdd yn amserol a gofodol, yn destun pryder mawr i'r Cyngor. Byddai'r Cyngor yn disgwyl i Horizon a'r Grid Cenedlaethol fod wedi ymgysylltu'n helaeth ar DCO y WNP yn y cam cyn-gwneud-cais i sicrhau bod hyrwyddwyr y ddau brosiect yn deall yr effeithiau cronnus posib a allai ddeillio o'r ddau brosiect. Ar gyfer pynciau penodol lle gellid disgwyl yn rhesymol i'r effeithiau hyn ddigwydd (fel yr effeithiau ar dirlun ac amwynder gweledol), byddai'r Cyngor yn disgwyl i'r hyrwyddwyr fod wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb wrth adnabod y derbynyddion a'r amodau gwreiddiol fel bod y ddwy broses EIA gyfochrog a chanlyniadau'r asesiadau mor ystyrlon a thryloyw â phosib o ran effeithiau ar y prif dderbynyddion. O adolygu dogfennau'r ceisiadau DCO ar gyfer Wylfa Newydd a NWCP, ymddengys na chafodd y dull hwn ei ddilyn. Felly bu'n rhaid i'r Cyngor ragdybio pa ffynonellau a allai achosi effeithiau cronnus a chyflwynir y dull hwn yn fwy manwl isod.

2.1.12 Byddai deialog ychwanegol â hyrwyddwyr prosiectau eraill fel Stena Ports hefyd wedi bod o fudd i'r broses CIA.

## 3.0 Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

3.1.1 Yn ogystal â'r CIA a gyflwynir yn yr ES ar gyfer y WNP, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) a gyflwynwyd gyda'r cais DCO yn rhoi barn cwmni Horizon am yr asesiad cyffredinol o'r WNP a phrosiectau RFFP eraill ar y prif ddangosyddion iechyd ar gyfer pobl a chymunedau yn y Parthau Dylanwad diffiniedig sydd wedi eu hadnabod gan Horizon. Yn unol ag arferion safonol, mae'r HIA yn gwneud defnydd sylweddol o ganlyniadau asesiadau pynciau technegol EIA cwmni Horizon, canlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, i oleuo'r asesiad cyffredinol o'r effaith ar iechyd.

3.1.2 Mae'r HIA yn cynnwys cyfeiriad sylweddol at ystyried yr effeithiau ar iechyd a lles. Er bod iechyd yn un o'r saith nod llesiant yn y WBFGA, barn y Cyngor yw na ddylid gweld yr asesiad HIA fel rhywbeth y gellir ei wneud yn lle asesu'r WNP yn erbyn Deddf gyfan y WBFGA. Gyda'i gilydd, saith nod llesiant y WBFGA sy'n ymgorffori'r holl egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r

Cyngor wedi cyflawni asesiad llesiant llawn o'r prosiect, ac yn ei gyflwyno gyda'r LIR hwn.

## 3.2 Y Dystiolaeth a'r Effeithiau

3.2.1 Mae'r adrannau pwnc canlynol yn crynhoi rhai o'r prif effeithiau posib a allai godi o'r prosiect ac a ddisgrifir mewn manylder ym mhenodau pwnc penodol yr adroddiad LIR hwn. Disgrifir hwynt yn fanwl yn y bennod hon i ddangos maint y newid y disgwylir iddo ddigwydd ar draws ystod o bynciau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol sydd â'r potensial i effeithio'n bennaf ar gymunedau Gogledd yr Ynys.

### Poblogaeth

3.2.2 Mae poblogaeth breswyl bresennol Rhanbarth Gogledd Cymru'n agos at 690,000 a disgwylir i hyn gynyddu i 720,000 erbyn 2039. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd cynghorau Gogledd Cymru, disgwylir i'r boblogaeth dyfu rhwng 2014 a 2039 (Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru – Adroddiad Cryno, Ebrill 2017). Yn benodol, disgwylir i boblogaeth Ynys Môn ostwng rhwng y sefyllfa gychwynnol yn 2014 (69,750) a 2033 (69,231).

3.2.3 Mae dwysedd poblogaeth Gogledd yr Ynys yn uwch o'i gymharu â gweddill yr ynys (2.2 ac 1 person i'r hectar yn y naill achos a'r llall yn eu trefn)[1] gyda'r boblogaeth yng Ngogledd yr Ynys wedi tyfu dwywaith mor gyflym â gweddill yr ynys rhwng 2001 a 2011. Yng nghyffiniau agos y WNDA, roedd poblogaeth gyfunol y ddwy gymuned a ddiffiniwyd, sef Tregele a Chemaes, yn 1357 person yn 2011[2]).

3.2.4 Dylid nodi bod poblogaeth Gogledd yr Ynys yn gymharol oedrannus, gyda'r grŵp 45-74 oed yn cyfrif am 43.4% o'r boblogaeth a thraean o'r deiliaid tai yn bensiynwyr. Fodd bynnag, disgwylir i gyfran y bobl 65+ oed yn cynyddu o bron i 17,000 yn 2014 i tua 22,000 erbyn 2033. Gallwn ddisgwyl yn rhesymol y bydd hyn yn arwain at fwy o bobl yn byw ar Ynys Môn (fel cyfran o'r boblogaeth gyfan) ac y bydd mwy o ofynion lles ac iechyd, anghenion gofal iechyd sylweddol, ac yn sgîl hynny mwy o ddibynnu ar wasanaethau lleol, yn dod law yn llaw â hyn.

### Yr Iaith Gymraeg

3.2.5 Yng Ngogledd yr Ynys mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn amrywio o un lle i'r llall ond yn rhywle rhwng 44-71% o'r trigolion (SPG Gogledd Ynys Môn). Mae trothwyon o dros 70% a thros 50% o siaradwyr Cymraeg yn ddau brif fesur o fywiogrwydd ieithyddol mewn ardal ddaearyddol ac mewn dwy ward yng Ngogledd yr Ynys (Llanbadrig a Moelfre) mae'r Asesiad o'r Effaith ar y

[1] Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018) Papur Pwnc 11: Gogledd Ynys Môn, para 3.2.2. (Link)
[2] Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (Mai 2018) tudalen 154 (Link)

Gymraeg gan Horizon yn amcangyfrif y bydd 50% yn llai o bobl yn siarad Cymraeg o ganlyniad i Wylfa Newydd.

3.2.6 Mae'r rhesymeg dros ragweld y bydd llai o siaradwyr Cymraeg yn seiliedig ar gyfran o'r 7,000 o weithwyr a fyddai'n symud i mewn i'r ardal i weithio ar y WNP dros y prif gyfnod adeiladu. Mae Horizon yn amcangyfrif y disgwylir i gyfran fawr (dros 80%) o'r gweithlu hwn yn ddi-Gymraeg. Gallai effeithiau cronnus ar gyfran y siaradwyr Cymraeg hefyd ddigwydd pe bai pobl yn y cymunedau presennol yn cael eu disodli gan weithwyr a fyddai'n chwilio am le i fyw, neu pe byddent yn dewis symud i ffwrdd o'u cymuned o ganlyniad i gyfuniad o effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol. Gallai gweithwyr yn symud i mewn effeithio ar y trigolion presennol sy'n siaradwyr Cymraeg o ran yr effaith ar ddefnyddio'r Gymraeg. Byddai hyn yn arbennig o wir wrth i blant gweithwyr y WNP symud i mewn ac integreiddio o fewn y system addysg ac yn ehangach wrth integreiddio yn y cymunedau lleol.

**Canolfannau gwasanaeth**

3.2.7 Yng Ngogledd yr Ynys, mae pentref Cemaes yn ward Llanbadrig wedi'i ddiffinio fel Canolfan Gwasanaethau Lleol sy'n darparu siopau a thafarndai lleol, ysgol gynradd, meddygfa a neuadd bentref a ddefnyddir gan drigolion y pentref a'r bobl sy'n byw yn y tai gwasgaredig cyfagos yng nghefn gwlad. Mae gan y cymunedau bach sy'n nes at y WNDA lai o gapasiti i gwrdd ag anghenion gwasanaeth y gweithlu a fyddai'n symud i mewn (campws neu leoliad preswyl lleol arall) y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddefnyddio'r gwasanaethau mwyaf hwylus o ran siopau, tafarndai a chyfleusterau hamdden / amwynder y tu allan i'w horiau gwaith.

**Cyflogaeth**

3.2.8 Mae diweithdra yng Ngogledd yr Ynys yn uwch nag ar draws yr Ynys ac yng ngweddill Cymru. Mae hunangyflogaeth yn uchel (22% o'r bobl sy'n economaidd weithgar) ac mae mwy o weithwyr medrus eu sgiliau (Grwpiau Galwedigaeth 4 a 5) ond diffyg sgiliau rheolaethol (Grwpiau 1-3). Awgryma'r sefyllfa gychwynnol hon y gellid defnyddio cyflenwad sylweddol o lafur lleol ar gyfer cyfnod adeiladu'r WNP naill ai drwy gyflogi'n uniongyrchol neu drwy'r gadwyn gyflenwi leol ehangach, a byddai'r cyfleoedd cronnus i gael mwy o drigolion i fod yn economaidd weithgar yn cynyddu ymhellach drwy'r cymhellion cronnus ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol, hyfforddiant sgiliau a chymorth addysgol.

**Tai**

3.2.9 Mae'r stoc dai yng Nghemaes (h.y. maint y tai unigol) yn fach o'i gymharu â gweddill Gogledd yr Ynys a'r ynys yn gyffredinol, mae pobl yn llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi ac mae maint yr aelwyd hefyd yn llai (2.08 o bobl yr aelwyd). At ei gilydd yng Ngogledd yr Ynys, mae cyfraddau tanfeddiannu'n uwch na mewn rhannau eraill o'r ynys ac ar draws Cymru. Yn 2016 roedd cofnodion y Cyngor Sir yn awgrymu bod 165 eiddo preswyl gwag yng Ngogledd yr Ynys, gyda'r nifer fwyaf (28) yn ward Llanbadrig. Mae hyn yn

awgrymu bod ambell i eiddo efallai heb ei feddiannu ac y gellid ei droi'n ôl at ddefnydd buddiol i'r trigolion gan ddarparu tai dros dro neu barhaol i weithlu Wylfa Newydd yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredol y prosiect.

3.2.10 O ran fforddiadwyedd, pur anaml y mae incwm cyfartalog yr aelwyd yng Ngogledd yr Ynys yn fwy na £25,000 sy'n cyfyngu'n sylweddol ar obaith y trigolion o fedru fforddio tai dwy, tair neu bedair ystafell wely mwy ac sy'n pwysleisio bod angen tai fforddiadwy cost isel a stoc o dai rhent cystadleuol. Awgryma hyn y gallai'r boblogaeth breswyl leol yng Ngogledd yr Ynys fod dan fwy o bwysau o ran gallu fforddio tai lleol os bydd mwy o alw, ac mae hynny'n debygol, o ganlyniad i weithwyr yn symud i'r ardal i chwilio am dai rhent neu i'w prynu.

**Twristiaeth**

3.2.11 Mae nifer fawr o ymwelwyr yn ymweld â Chemaes a chymunedau eraill yng Ngogledd yr Ynys, yn enwedig dros fisoedd yr haf, i chwilio am nwyddau a gwasanaethau. Mae'n dilyn y gallai diraddio ansawdd eithriadol yr amgylchedd presennol yng Ngogledd yr Ynys, a hyn wedi'i gyplysu â llai o hygyrchedd o ganlyniad i fwy o draffig, leihau apêl yr ardal fel cyrchfan dwristiaeth ac yn enwedig dros gyfnod adeiladu'r orsaf bŵer a'r gwaith priffyrdd ar-lein**.**

**Amwynder gweledol**

3.2.12 Mae gan drigolion Cemaes amrywiaeth o olygfeydd ar draws Prif Safle'r Orsaf Bŵer arfaethedig gyda'r bobl sy'n byw yn y rhannau uwch o'r pentref, ar gyrion gorllewinol y pentref ac ar hyd yr A5025, yn mwynhau golygfeydd eang allan i'r môr yn y pellter. Mae Prif Safle'r Orsaf Bŵer yn meddiannu dros 180 gradd o olygfeydd rhai trigolion yn Nhregele. Yn nodedig, nid yw Horizon wedi ystyried golygfeydd deiliaid yr holl dai preswyl a leolir y tu allan i ffiniau'r cymunedau.

3.2.13 Mae'r Cyngor yn credu y bydd effeithiau negyddol sylweddol i'w teimlo gan bobl ym mhob un o chwe phrif grŵp derbynyddion gweledol Horizon, hyd yn oed ar ôl gweithredu mesurau lliniaru ychwanegol Horizon. Mae'r Cyngor yn poeni'n benodol am yr effaith weledol ar drigolion Tregele, Cemaes a Llanfairynghornwy. Mae'r Cyngor hefyd yn poeni y bydd pobl sy'n defnyddio rhannau o Lwybr Arfordir Cymru a'r Llwybr Copor sy'n pasio drwy ardal yr astudiaeth hefyd yn teimlo effeithiau negyddol sylweddol ac y bydd yr effeithiau hynny hefyd yn cael eu profi gan ddefnyddwyr y rhannau wedi eu gwyro dros dro neu'n barhaol. Yn ogystal, mae'r Cyngor o'r farn y profir effeithiau gweledol andwyol (negyddol) sylweddol gan rai sy'n defnyddio rhannau helaeth o'r rhwydweithiau PRoW a'r lonydd lleol, a hefyd mewn rhai Ardaloedd Mannau Agored, yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredol y WNP hyd yn oed ar ôl gweithredu ystod o fesurau lliniaru ychwanegol.

3.2.15 Barn y Cyngor yw na ystyriwyd effaith weledol y WNP yn ddigonol o ran faint o dderbynyddion preswyl y gallai effeithio arnynt ac nad yw'r mesurau lliniaru sydd gan Horizon mewn golwg yn ddigon. Bydd golygfeydd o'r datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol ar y trigolion ac effeithir hefyd ar eu lles o ganlyniad i

ddiraddio ansawdd y golygfeydd y gellir eu mwynhau ar hyn o bryd ar hyd y llwybrau PRoW, ar hyd lonydd lleol ac mewn rhai Ardaloedd Mannau Agored. Gallai diraddio'r asedau cyhoeddus hyn hefyd leihau apêl Gogledd yr Ynys fel cyrchfan dwristiaeth.

**Sŵn**

3.2.16 Disgrifir yr asesiad o'r gwaith adeiladu yn y Datganiad Amgylcheddol ac mewn sawl dogfen gysylltiedig arall. Mae'r asesiad o rai gweithgareddau'n llai manwl nag eraill, er enghraifft mae gan y gwaith ffrwydro ddatganiad yn nodi na fydd hyn yn cael ei wneud i gydymffurfio â'r meini prawf a gytunwyd ac felly na fydd yn sylweddol. Nid oes asesiad ffrwydro i gefnogi hyn.

3.2.17 Mae adran 6.5 o'r asesiad yn trafod nifer yr eiddo fydd yn gweld cynnydd yn y sŵn yn gysylltiedig â'r gwaith adeiladu ond ni roddir unrhyw syniad o ble y mae'r eiddo, a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol. Dim ond nifer ddangosol o eiddo ym mhob grŵp derbynyddion a roddir yn y tablau.

3.2.18 Aseswyd na fydd y sŵn o drawsnewidyddion trydan yn sylweddol oherwydd cymerir na fydd yn fwy na 25 dB LAeq, T wrth y derbynyddion. Mae hyn yn cynnwys datganiad y byddai angen 20dB(A) i liniaru effaith trawsnewidyddion a leolir i'r dwyrain o'r datblygiad i gwrdd â'r maen prawf o 25 dB LAeq, T wrth yr eiddo agosaf ar hyd yr A5025 ar gyrion gogledd-orllewinol Tregele. Ystyrir clôs enghreifftiol sy'n achosi colled trawsnewid trydan o 40 dB ond nid yw'n glir a yw hyn wedi'i gynnwys yn y mesurau lliniaru gwreiddiol / ychwanegol.

3.2.19 Ymddengys na chafodd asesiad o'r lefelau $L_{AFmax}$ ei wneud o ran aflonyddu ar gwsg (ar sail y Canllawiau gan WHO a oedd yn berthnasol pan baratowyd yr ES) o ganlyniad i gomisiynu neu brofion cynnal a chadw, er enghraifft, a allai ddigwydd wedi iddi nosi (rhwng 23:00 – 07:00). Byddai asesiad o'r fath hefyd yn cael ei wneud fel rheol ar gyfer cerbydau'n dod i mewn ac allan o feysydd parcio, gan gynnwys yr effeithiau posib o 'ddrysau'n clepian' ac injans yn cychwyn / stopio (gan gynnwys unrhyw refian). Er yn cydnabod y gellir lliniaru yn erbyn y sŵn olaf drwy gadw at arferion rheoli da, byddai'n arferol cynnwys rhyw fath o ddatganiad mewn ES yn ystyried yr effeithiau $L_{AFmax}$ a allai ddod o'r fath ffynonellau. Dylid nodi bod y math yma o asesiad wedi'i wneud ar gyfer traffig ar hyd ffyrdd cyhoeddus.

3.2.20 Awgryma'r sylwadau uchod na ystyriwyd yn ddigonol pa mor ddifrifol y gallai effeithiau sŵn fod i'r derbynyddion sensitif agosaf. Yn ogystal, o'r wybodaeth a gyflwynir yn yr ES, nid yw'n bosib ennill dealltwriaeth glir o ddosbarthiad gofodol y tai y disgwylir iddynt brofi effeithiau andwyol sylweddol.

**Band-eang**

3.2.21 Ar hyn o bryd mae Gogledd yr Ynys yn profi cyflymderau band-eang llawer arafach na gweddill yr ynys. Disgwylir i'r mewnlifiad mawr o weithwyr ar gyfer y WNP roi pwysau ychwanegol ar ba mor effeithlon yw'r ddarpariaeth band-eang bresennol.

**Gwasanaethau brys**

3.2.22 Mae'r Cyngor yn deall bod Heddlu Gogledd Cymru wedi lleisio pryder am effaith bosib y WNP ar weithgareddau arferol yr Heddlu a hefyd wedi tynnu sylw at y posibilrwydd o effeithiau cronnus o Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru [RR-124 a REP1-096]. Lleisiwyd pryderon tebyg gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru [RR-095] ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru [RR-090]. Mae'r Cyngor yn rhannu pryderon y gwasanaethau hyn y gallai effeithiau Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltu Gogledd Cymru roi straen ar eu hadnoddau ac na fyddent o ganlyniad yn gallu ymateb yn y ffordd y byddent yn ei ddymuno i anghenion a gofynion y cymunedau lleol presennol.

**Problemau'n deillio o effeithiau cronnus**

3.2.23 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd maint a pharhad dylanwad yr elfennau unigol o Brosiect Wylfa Newydd (WNP) ar yr amodau gwreiddiol yn amrywio. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai'r gweithgareddau datblygu a chyflwyno elfennau ffisegol newydd (fel adeiladau dros dro a pharhaol, a phentyrrau cerrig a phridd dros dro a pharhaol) yn ac o gwmpas y WNDA (gan gynnwys yr Orsaf Bŵer) ac ar hyd coridor presennol ac arfaethedig yr A5025, yw'r ffynonellau mwyaf tebygol o effeithiau cronnus sylweddol ar dderbynyddion. Bydd y gweithgareddau a'r elfennau ffisegol hyn yn achosi newid sylweddol i'r amodau gwreiddiol o ran sŵn, ansawdd yr aer, tirlun, amwynder gweledol, ecoleg, treftadaeth ddiwylliannol ac amwynder hamdden ac yn fwyaf tebygol o effeithio'n uniongyrchol ar drigolion Tregele, Cemaes a Llanfechell a phobl sy'n byw yn y tai preswyl gwasgaredig yn nes at y WNDA. Mae'r trigolion hyn, ynghyd â thrigolion yng nghymunedau ehangach Gogledd yr Ynys, hefyd yn debygol o gael eu heffeithio gan amodau economaidd-gymdeithasol newydd wrth i weithwyr symud i mewn i'r ardal a chynyddu'r galw am wasanaethau a seilwaith, wrth i bobl ddi-Gymraeg yn bennaf gyrraedd y cymunedau, a chan yr effeithiau posib ar les y gymuned o ganlyniad.

3.2.24 Mae Horizon wedi mabwysiadu dull derbynyddion o asesu'r effeithiau cronnus yn deillio o Wylfa Newydd ac o'r prosiectau RFFP a allai orgyffwrdd yn amserol a / neu'n ofodol â Wylfa Newydd. Nid yw'r dull derbynyddion yma'n gwbl gyson â'r canllawiau yn Nodyn Cyngor 17 PINS sy'n canolbwyntio ar fapio Parthau Dylanwad. Er hynny, deallwn fod Horizon wedi trafod y fethodoleg derbynyddion gyda PINS er nad yw'n glir i'r Cyngor a yw PINS wedi derbyn y dull hwn (paragraff 2.2.2 Dogfen Cyfeirnod 6.9.2 ES Cyfrol 1 – Effeithiau Cronnus 12 – Cwmpas).

3.2.25 Mae Horizon wedi darparu asesiadau o'r effeithiau cronnus mewn-brosiect a rhyng-brosiect ar gyfer pob un o bynciau technegol yr EIA (wele ddogfennau Horizon 6.9.4 ES Cyfrol I - Effeithiau cronnus I4 - Effeithiau cronnus mewn-brosiect, a 6.9.5 ES Cyfrol I - Effeithiau cronnus I5 - Effeithiau cronnus rhyng-brosiect). Cyflwynir matricsau (wele ddogfennau Horizon cyfeirnod 6.9.6 ES Cyfrol I – Effeithiau cronnus Atodiad I2-1 – Matrics o'r derbynyddion yr effeithir arnynt gan Wylfa Newydd a pha ddatblygiadau sy'n effeithio arnynt, a chyfeirnod 6.9.7 ES Cyfrol I – Effeithiau cronnus Atodiad I2-2 – Matrics o'r derbynyddion yr effeithir arnynt gan Wylfa Newydd a pha brosiectau rhestr fer allai effeithio arnynt) sy'n adnabod y rhyng-effeithiau mewn-brosiect a rhyng-brosiect i dderbynyddion a allai ddioddef effeithiau cronnus.

3.2.26 Barn y Cyngor yw bod y matricsau'n adnabod, yn weddol gywir, y rhyng-effeithiau posib a allai ddeillio o effeithiau cronnus ar dderbynyddion, ond nid yw hyn o werth mawr i ennill dealltwriaeth ofodol glir o ddosbarthiad y derbynyddion penodol a / neu'r clystyrau o dderbynyddion a allai ddioddef effeithiau cronnus. Byddai cyflwyniad gweledol o'r derbynyddion unigol neu glystyrau o dderbynyddion wedi gwella'r dehongliad o ganfyddiadau a chasgliadau'r CIA yn sylweddol ac o berthnasedd penodol canlyniadau'r asesiadau a ble'n union i dargedu mesurau lliniaru penodol a / neu fesurau gwneud iawn. O ganlyniad i'r diffyg gwybodaeth yma, mae'r Cyngor wedi adolygu allbynnau'r asesiadau CIA ar gyfer y WNP a'r NWCP i ganolbwyntio ar y prif bynciau amgylcheddol a allai fod wedi achosi effeithiau andwyol gweddilliol "cymedrol" neu "fawr" fel y diffiniwyd hwynt gan Horizon a / neu'r Grid Cenedlaethol. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r disgrifiadau o effaith hyn i adnabod pa dderbynyddion a allai weld effeithiau gweddilliol sylweddol gan y naill ddatblygiad neu'r llall, neu gan y ddau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y systemau sgorio effeithiau a ddefnyddir gan Horizon a'r Grid Cenedlaethol efallai'n wahanol. Fodd bynnag, i bwrpas y ffigurau dangosol isod, cymerwn fod sgôr effaith o "gymedrol" neu "fawr" yn sylweddol.

3.2.27 Mae'r Cyngor wedi cyflawni'r ymarfer hwn er mwyn deall yn well beth allai'r effeithiau cronnus ar amwynder preswyl fod. Gan hynny mae wedi ystyried casgliadau'r asesiadau a gyflwynir yn y ddau Ddatganiad Amgylcheddol ar gyfer effeithiau gweledol a sŵn. Dylid hefyd cynnwys ansawdd yr aer mewn asesiad cyfunol o leiaf, ond mae'r wybodaeth a gyflwynir yn ES Wylfa Newydd yn golygu na fyddai unrhyw fapio gofodol ar lefel eiddo unigol yn ddigon manwl na thrylwyr i fod yn ddefnyddiol i'r ymarfer. Felly dewisodd y Cyngor adnabod y lleoliadau derbynyddion effeithiau ansawdd aer enghreifftiol yn unig.

3.2.28 Cyflwynir canfyddiadau adolygiad y Cyngor yn Ffigyrau 1-5 (Atodiad 16A – 16E).

3.2.29 Dengys Ffigwr 1 ddosbarthiad yr eiddo unigol sydd wedi eu hadnabod drwy Fas-data Cyfeiriadau'r Arolwg Ordnans (OS) ac a leolir ym mharthau dylanwad posib prosiectau'r NWDA a'r NWCP yn ôl yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ddeall o'r dogfennau DCO cyhoeddedig. Mae 1,304 o eiddo unigol wedi eu hadnabod, y rhan fwyaf ohonynt yn dai preswyl. Mae set ddata'r OS yn cynnwys eiddo o fath arall, er enghraifft tafarndai a thai bwyta, gorsafoedd petrol, meddygfeydd ac yn y blaen. Gallai fod gan rai o'r adeiladau hyn elfen breswyl a / neu ddeiliaid sy'n treulio rhan fawr o'u diwrnod ynddynt. Mae nifer yr eiddo sydd wedi eu cynnwys yn asesiad sŵn a dirgryniad Horizon yn debyg sef 1,283, gyda 1,221 wedi eu hadnabod fel tai preswyl. Gallai'r gwahaniaeth yn nifer yr eiddo sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor a chan Horizon fod yn rhannol oherwydd sut y dehonglwyd y data sy'n adlewyrchu lleoliad a defnydd yr eiddo.

3.2.30 Mae Ffigwr 2 yn cyflwyno dosbarthiad gofodol y derbynyddion a allai brofi effeithiau **"sylweddol"** (negyddol yn nherminoleg y LIR hwn) o ran sŵn a gwaith adeiladu gweledol. O ran sŵn, y derbynyddion sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor yw'r rhai a allai brofi effeithiau cyn gweithredu'r mesurau lliniaru. Dengys y Ffigwr hwn hefyd ble y disgwylir i fwy o grynodiadau llygredd ddigwydd o ran crynodiadau cefndir yn ymwneud â'r

WNP yn unig. Dylid nodi bod ansawdd yr aer wedi'i gynnwys fel pwnc CIA perthnasol o gofio nad oes unrhyw lefelau absoliwt sy'n cael eu cydnabod i fod yn llwyr ddiogelu iechyd pobl. Mae HIA Horizon yn cydnabod hyn.

3.2.31 Mae Ffigwr 3 yn cyflwyno dosbarthiad gofodol y derbynyddion a allai brofi effeithiau **"sylweddol"** (negyddol yn nherminoleg y LIR hwn) fel y diffiniwyd hwynt gan Horizon a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer prosiectau'r WNP a'r NWCP yn ystod cyfnodau adeiladu'r ddau brosiect.

3.2.32 Mae Ffigyrau 4 a 5 yn cyflwyno gwybodaeth debyg i'r hyn a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer cyfnodau gweithredol y ddau brosiect.

3.2.33 Mae'r ffigyrau'n awgrymu y bydd cyfran sylweddol o'r derbynyddion yng nghyffiniau'r WNDA (fel y disgrifiwyd gan y ffigurau dangosol) yn profi effeithiau negyddol (sylweddol andwyol) hirdymor o ran sŵn ac effeithiau gweledol ynghyd â rhywfaint o ddirywiad yn ansawdd yr aer o'i gymharu â'r amodau gwreiddiol heb ddylanwad y WNP a'r NWCP. Cyflwynir amcangyfrif y Cyngor o nifer yr eiddo sy'n gysylltiedig â'r ffigurau dangosol yn y tabl canlynol.

| **Derbynyddion** | **Amcan Nifer yr Eiddo** |
|---|---|
| Nifer y tai preswyl tybiedig o fewn amlen Ffigyrau 1-5 yn defnyddio gwybodaeth data-bas yr Arolwg Ordnans. | 1304 |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sŵn sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod adeiladu'r WNP (cyn mesurau lliniaru). Mae'r Cyngor wedi tybio y defnyddir sgoriau effaith Horizon ar gyfer yr holl eiddo yn grwpiau eiddo Horizon fel achos gwaethaf. Cyflwynir hefyd, yn y golofn nesaf, nifer yr eiddo a gymerwyd o ES Horizon (Tabl D6-34 *"Prosiect Wylfa Newydd 6.4.6 ES Cyfrol D – WNDA Datblygiad D6 – Sŵn a Dirgryniad")* y disgwylir iddynt brofi effeithiau gweddilliol mawr a chymedrol ar ôl lliniaru ar eu cyfer. | 1304<br>321 Effeithiau gweddilliol mawr<br>862 Effeithiau gweddilliol cymedrol |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sŵn sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod gweithredol y WNP. | Dim |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau gweledol gweddilliol sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod adeiladu'r WNP. | 703 Effeithiau mawr<br>312 Effeithiau cymedrol<br><br>1015 i gyd |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau gweledol sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod gweithredol Blwyddyn 1 y WNP. | 74 Effeithiau mawr<br>941 Effeithiau cymedrol |

| | |
|---|---|
| | 1015 i gyd |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau gweledol sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod gweithredol Blwyddyn 15 y WNP. | 112 Effeithiau cymedrol |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sŵn sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod adeiladu'r NWCP. | 5 |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sŵn sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod gweithredol y NWCP. | 2 |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau gweledol sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod adeiladu'r NWCP. | 6 |
| Nifer yr eiddo a fydd yn profi effeithiau gweledol sylweddol yn gysylltiedig â chyfnod gweithredol y NWCP. | 1 Effeithiau mawr<br>52 Effeithiau cymedrol<br><br>53 i gyd |
| Cyfanswm yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sylweddol yn gysylltiedig â'r ddau brosiect. Y Cyfnod Adeiladu | 1304 |
| Cyfanswm yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sylweddol yn gysylltiedig â'r ddau brosiect. Y Cyfnod Gweithredol. | Blwyddyn 1: 1030<br>Blwyddyn 15: 767 |
| Cyfanswm yr eiddo a fydd yn profi effeithiau sylweddol yn gysylltiedig â'r ddau brosiect. Y Cyfnodau Adeiladu a Gweithredol. | 1304 |

## 4.0 Y Sefyllfa Bolisi

4.1.1 Mae'r Cyngor wedi adnabod y polisïau sy'n berthnasol i'r pynciau unigol ym mhob adran o'r LIR ac felly ni fwriedir eu hailadrodd yma. Yng nghyd-destun y CIA, mae'r polisïau canlynol yn arbennig o berthnasol.

a) Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AoS) sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Gynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6) (2011) yn nodi y gallai adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn 'Wylfa' effeithio'n sylweddol ar safleoedd SoDdGA Tre'r Gof, Bae Cemlyn a Chae Gwyn a leolir o fewn 5km i'r safle. Mae SoDdGA Tre'r Gof yn gorwedd oddi mewn i ffin Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd (WNDA). Mae'r AoS hefyd yn cydnabod y gallai fod effeithiau gweddilliol ar yr AoHNE, yn enwedig yng Ngogledd Ynys Môn gan dynnu sylw hefyd at effeithiau posib ar lwybrau troed gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru (para 2.3.4 o Bapur Pwnc SPG 11; Gogledd Ynys Môn).

b) Cyhoeddwyd y Polisi Cynllunio Cymru diweddaraf (PPW9) yn Nhachwedd 2016 ac mae'n ymgorffori newidiadau i ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae PPW9 ynghyd â Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) a Chylchlythyrau'n trafod y prif themâu sy'n berthnasol i'r CIA ar gyfer y WNP. Gyda'i gilydd eu nod yw sicrhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ynghyd â sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd naturiol a diwylliannol. Mae Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd Gwynedd a Môn (JLDP) a gafodd ei fabwysiadu yng Ngorffennaf 2017 yn cyflwyno'r polisi lleol presennol, sy'n gyson â PPW, felly mae'r JLDP yn trafod prif themâu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) o geisio hyrwyddo ffyniant, gwydnwch, iechyd, cymunedau cydlynol, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu.

c) Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (2012) yn adnabod Arfordir Gogledd Ynys Môn fel un o dri stribyn o arfordir treftadaeth gan nodi bod llawer o'r rhan yma o'r arfordir dan stiwardiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a bod yr ardal wedi'i dynodi fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Arfordir Treftadaeth sy'n bwysig i dwristiaeth oherwydd ei harddwch naturiol a'i natur anghysbell gyda phentrefi (fel Cemaes ac Amlwch) yn cynnal y diwydiant twristiaeth ond hefyd yn gymunedau traddodiadol pwysig ynddynt eu hunain.

d) Mae pwysigrwydd yr arfordir o gwmpas Ynys Môn yn cael ei gydnabod yng Nghynllun Gweithredu Arfordir Môn Menai (2007) yn enwedig o ran gwneud y mwyaf o'r budd economaidd y gall gweithgareddau hamdden o gwmpas yr arfordir (tir a môr) ei gynnig.

**Y Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd**

4.1.2 Polisi Strategol PS9: Wylfa Newydd a Datblygu Cysylltiedig

4.1.3 Mae'r polisi'n cynnwys 16 o feini prawf y dylid ystyried y prosiect yn eu herbyn. I gydnabod yr effeithiau, gan gynnwys yr effeithiau cronnus posib ar gymunedau lleol, mae maen prawf 13 yn nodi:

*Dylid cydnabod y baich a'r aflonyddwch i'r gymuned o fod yn safle ar gyfer prosiect seilwaith niwclear cenedlaethol neu ranbarthol mawr; a bydd disgwyl i'r darparwr gyflwyno pecynnau priodol o fuddiannau cymunedol i wrthbwyso a gwneud iawn i'r gymuned am y baich a'r aflonyddwch o fod yn safle ar gyfer y prosiect;*

**SPG 2018 ar gyfer Wylfa Newydd**

4.1.4 O ran iechyd a lles, mae'r dogfennau'n nodi ym mharagraff 4.3.6 bod y Cyngor yn disgwyl i effeithiau cronnus yr aflonyddwch gael eu hystyried yn llawn. Mae canllaw polisi cysylltiedig GP6 Gwarchod Iechyd yn cyfeirio at fod angen asesiadau i ystyried yr effeithiau cronnus posib.

4.1.5 Mae pwysigrwydd ystyried yr effeithiau cronnus hefyd yn cael ei gydnabod yn GP10a o ran yr effeithiau ar y farchnad dai leol, yr Iaith Gymraeg (GP14) ac ar yr Amgylchedd Hanesyddol (GP23).

4.1.6 Mewn ymateb i'r effeithiau cronnus sylweddol posib, mae GP24 Ymrwymiadau Cynllunio'n galw ar bob cais ar gyfer prosiect, yng nghyswllt y DCO a'r TCPA, i ystyried yr effeithiau cronnus ac ymateb drwy 'becyn Adran 106 llawn'.

4.1.7 Mae Adran 5.1 o'r SPG yn ystyried effeithiau posib Wylfa Newydd ar gymunedau, economi ac amgylchedd Gogledd Ynys Môn. Mae'n adnabod bod yr effeithiau cronnus a chyfunol posib yn ystyriaeth allweddol, gan nodi yn GP27 maen prawf iv bod yn rhaid asesu'r effeithiau cronnus posib a allai ddigwydd yn sgîl datblygiadau mawr eraill, a lliniaru ar eu cyfer yn y cais

DCO. Mae paragraff 5.1.33 yn adnabod Magnox a'r Grid Cenedlaethol fel datblygwyr prosiectau gan nodi y dylai datblygwr Wylfa Newydd weithio mewn partneriaeth â'r datblygwyr i adnabod a lliniaru'r effeithiau cronnus.

## 5.0 Lliniaru

5.1.1 Fel egwyddor drosfwaol, mae Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) y Cyngor yn nodi'n glir ym mharagraff 4.1.1 beth yw safiad y Cyngor ar adnabod a lliniaru ar gyfer effeithiau sylweddol. Mae brawddeg olaf y paragraff yn nodi:

*"Bydd y Cyngor Sir yn disgwyl i hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd ac unrhyw ymgeisydd arall geisio osgoi effeithiau andwyol yn y lle cyntaf. Lle nad oes modd osgoi effeithiau andwyol, dylid cyflwyno mesurau lliniaru priodol i wrthbwyso'r effeithiau andwyol sylweddol a nodwyd ac a gytunwyd. Gofynnir am iawndal ar gyfer effeithiau gweddilliol na ellir lliniaru yn eu herbyn."*

5.1.2 Drwy gymhwyso egwyddor agosatrwydd y Cyngor, awgrymir y dylai ffocws y lliniaru a'r iawndal fod ar y derbynyddion a fydd yn profi'r newid mwyaf i'r amodau gwreiddiol ac a fydd yn profi effeithiau cronnus gweddilliol andwyol sylweddol (**effeithiau cronnus negyddol sylweddol**) o ganlyniad i fewn-effeithiau prosiectau'r WNP a / neu ryng-effeithiau cronnus penodol yn deillio o brosiectau RFFP eraill mewn cyfuniad â'r WNP.

5.1.3 Mae'n amlwg mai Gogledd yr Ynys yw ffocws yr effeithiau cronnus gweddilliol andwyol sylweddol ar dderbynyddion sensitif. Mae'r Cyngor yn ystyried y dylai effeithiau cronnus mewn-brosiect y WNP ar bobl yn byw o fewn ffiniau cymunedau penodedig, ac mewn tai preswyl mwy gwasgarog yng nghyffiniau agos i'r WNDA, fod yn effeithiau o arwyddocâd andwyol mawr **(effeithiau negyddol sylweddol**).

5.1.4 Mae'r Cyngor wedi ceisio adnabod dosbarthiad gofodol y derbynyddion fydd yn profi'r effeithiau hyn o ganlyniad i effeithiau cronnus mewn-brosiect y WNP yn fwy trylwyr a manwl nag y mae cwmni Horizon wedi'i wneud. Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried canfyddiadau'r EIA a'r ES ar gyfer y NWCP er mwyn cyfrif am yr effeithiau cronnus rhyng-brosiect penodol. Prif nod y Cyngor Sir yw sicrhau y gellir diffinio a thargedu mesurau lliniaru a gwneud iawn penodol mor gywir â phosib. Mae'r Cyngor yn gofyn bod Horizon yn darparu gwybodaeth ofodol dryloyw debyg er mwyn gallu cyrraedd consensws ar dargedu'r mesurau lliniaru a gwneud iawn.

5.1.5 O ran y mesurau gwneud iawn a lliniaru ffisegol, mae'r Cyngor yn parhau i asesu sut y gallai'r mesurau lliniaru ymateb i'r amseroedd a'r cyfuniadau hynod gymhleth, ac felly na ellir eu rhagweld, o ddatblygiadau yn y dyfodol.

5.1.6 Ar y pwynt hwn mae'n debyg na fyddai'n ddefnyddiol ceisio rhestru'r mesurau lliniaru a allai godi o gyfuniadau penodol o ddatblygiadau'n gorgyffwrdd, yn enwedig mewn cyd-destun lleol, ond a allai fod yn briodol fel rhan o'r broses archwilio barhaus.

5.1.7 Fodd bynnag, un mater sy'n sicr yn codi yw bod cyfuniad o bwysau datblygu'n debygol o waethygu'r effeithiau ac yn sgîl hynny y bydd angen mesurau i liniaru effeithiau eraill, gan felly bwysleisio bod angen cyllid cymunedol ac

wrth gefn ynghyd â hyblygrwydd gyda defnyddio'r cyllid hwn, o ran sgôp a faint o gyllid sydd ar gael i gwrdd ag anghenion penodol.

5.1.8 Dylid cwmpasu a darparu'r mesurau lliniaru ffisegol a / neu iawndal hyn i sicrhau, er enghraifft:

a) y bydd yr amgylchedd lleol sydd gan y boblogaeth breswyl ar hyn o bryd yn cael ei warchod a'i wella gymaint â phosib a'i warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
b) bod cyfleusterau a thai lleol yn parhau i fod ar gael i ateb anghenion parhaus poblogaeth yr Ynys;
c) y bydd twristiaid yn parhau i gael eu denu i ddod i'r ardal a defnyddio'r cyfleusterau lleol yn ystod cyfnod adeiladu'r WNP;
d) yr achubir ar bob cyfle i ddiogelu busnesau lleol rhag effeithiau andwyol prosiectau mawr o'r fath ond hefyd er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth lleol a ddaw yn eu sgîl.

5.1.9 Mae'n debyg, er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, y dylai cymunedau lleol elwa o fesurau gwneud iawn gan Horizon. Y dull mwyaf priodol o ddarparu iawn o'r fath fyddai drwy Gronfa lle gallai cymunedau fuddsoddi yn eu hamgylchedd a'u seilwaith lleol.

5.1.10 Dylai monitro perfformiad y mesurau iawndal a lliniaru fod yn agwedd allweddol ond gyda'r hyblygrwydd annatod y bydd mesurau eraill yn cael eu gweithredu'n ddiymdroi os bydd y monitro'n dangos nad yw effeithiau cronnus y WNP yn digwydd fel y mae'r DCO yn disgwyl iddynt wneud.

5.1.11 Nid yw'n fwriad i'r ymateb hwn i'r asesiad o effeithiau cronnus ddarostwng, mewn unrhyw ffordd, unrhyw ymateb arall a wnaed gan y Cyngor yng nghyswllt, er enghraifft, yr asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, ar Gydraddoldeb ac ar Les.